



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2014 Rhif 1762 (Cy. 177)**

**2014 No. 1762 (W. 177)**

**CARTREFI SYMUDOL,  
CYMRU**

**MOBILE HOMES, WALES**

Rheoliadau Cartrefi Symudol  
(Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru)  
2014

The Mobile Homes (Written  
Statement) (Wales) Regulations  
2014

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") yn gymwys i bob cytundeb y mae gan bobl hawl odano i osod cartref symudol ar safle gwarchoddedig a'i feddiannu fel eu hunig neu eu prif breswylfa. Mae Rhan 4 o Ddeddf 2013 yn darparu bod yn rhaid i berchennog y safle, cyn ymrwymo i gytundeb o'r fath, roi datganiad ysgrifenedig i ddarpar feddiannydd y cartref symudol. Rhaid i'r datganiad hwn gynnwys y materion a bennir yn adran 49(1)(a) i (d) o Ran 4 o Ddeddf 2013 a chydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

Part 4 of the Mobile Homes (Wales) Act 2013 ("the 2013 Act") applies to all agreements under which persons are entitled to station a mobile home on a protected site and occupy it as their only or main residence. Part 4 of the 2013 Act provides that before such an agreement is entered into, the site owner must give a written statement to the proposed occupier of the mobile home. This statement must include the matters specified in section 49(1)(a) to (d) of Part 4 of the 2013 Act and must comply with such other requirements as may be prescribed by the Welsh Ministers by regulations.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu bod yn rhaid i'r datganiad ysgrifenedig gynnwys gwybodaeth benodol, yn ychwanegol at yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan adran 49(1)(a) i (d) o Ran 4 o Ddeddf 2013, a bod rhaid iddo fod yn y ffurf a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

These Regulations specify that the written statement must contain certain information, in addition to that required by section 49(1)(a) to (d) of Part 4 of the 2013 Act, and must be in the form set out in the Schedule to these Regulations.

Mae Rhan 1 o'r Atodlen yn cynnwys gwybodaeth am hawliau'r meddiannydd o dan y cytundeb.

Part 1 of the Schedule contains information about the occupier's rights under the agreement.

Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn nodi prif ddarpariaethau'r cytundeb, sef enw a chyfeiriad y partiön, manylion y tir, ffi'r llain ac adolygu ffi'r llain, a thaliadau ychwanegol.

Part 2 of the Schedule sets out the main provisions of the agreement. These are the name and address of the parties, particulars of the land, the pitch fee and its review, and additional charges.

Mae Rhan 3 o'r Atodlen yn cynnwys unrhyw delerau datganedig eraill sydd yn y cytundeb.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2012.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, barnwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud Aseiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r buddion sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Part 3 of the Schedule contains any other express terms of the agreement.

These Regulations revoke the Mobile Homes (Written Statement) (Wales) Regulations 2012.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a Regulatory Impact Assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

**2014 Rhif 1762 (Cy. 177)**

**2014 No. 1762 (W. 177)**

**CARTREFI SYMUDOL,  
CYMRU**

**MOBILE HOMES, WALES**

**Rheoliadau Cartrefi Symudol  
(Datganiad Ysgrifenedig) Cymru)  
2014**

**The Mobile Homes (Written  
Statement) (Wales) Regulations  
2014**

*Gwnaed* 2 Gorffennaf 2014

*Made* 2 July 2014

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 4 Gorffennaf 2014

*Laid before the National Assembly for Wales* 4  
July 2014

*Yn dod i rym* 1 Hydref 2014

*Coming into force* 1 October 2014

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pŵer o dan adran 49(1)(e) o Ran 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of their power under section 49(1)(e) of Part 4 of the Mobile Homes (Wales) Act 2013(1), make the following Regulations.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**Title, commencement and application**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 1 Hydref 2014.

1.—(1) The title of these Regulations is the Mobile Homes (Written Statement) (Wales) Regulations 2014 and they come into force on 1 October 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a roddir ar neu ar ôl 1 Hydref 2014 mewn perthynas â chytundeb—

(2) These Regulations apply in relation to any written statement given on or after 1 October 2014 with respect to an agreement—

(a) ynglŷn â gosod cartref symudol(2) ar safle gwarchoddedig(3) yng Nghymru, a

(a) for the stationing of a mobile home(2) on a protected site(3) in Wales, and

(b) y bydd Rhan 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys iddo.

(b) to which Part 4 of the Mobile Homes (Wales) Act 2013 will apply.

---

(1) 2013 dccc 6.

(2) I gael y diffiniad o "cartref symudol", gweler adran 60 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

(3) I gael y diffiniad o "safle gwarchoddedig", gweler adran 2(2) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

---

(1) 2013 anaw 6.

(2) For the definition of "mobile home", see section 60 of the Mobile Homes (Wales) Act 2013.

(3) For the definition of "protected site", see section 2(2) of the Mobile Homes (Wales) Act 2013.

## Dehongli

### 2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “datganiad ysgrifenedig” (“*written statement*”) yw’r datganiad ysgrifenedig y mae’n ofynnol o dan adran 49(1) o Ddeddf 2013 i berchennog safle gwarchoddedig ei roi i’r darpar feddiannydd; ac

ystyr “Deddf 2013” (“*the 2013 Act*”) yw Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

## Datganiad ysgrifenedig: gofynion rhagnodedig

3. Y gofynion y mae’n rhaid i ddatganiad ysgrifenedig gydymffurfio â hwy at ddibenion adran 49(1) o Ddeddf 2013 (yn ychwanegol at ofynion adran 49(1)(a) i (d) o Ddeddf 2013) yw—

- (a) bod yn rhaid iddo gynnwys—
  - (i) y nodyn sy’n rhagflaenu Rhan 1 o’r Atodlen i’r Rheoliadau hyn, a
  - (ii) yr wybodaeth a grybwyllir yn Rhannau 1 i 3 o’r Atodlen honno (i’r graddau nad yw eisoes yn ofynnol o dan adran 49(1)(a) i (d) o Ddeddf 2013), a
- (b) bod yn rhaid iddo fod yn y ffurf a nodir yn yr Atodlen honno neu mewn ffurf sylweddol debyg ei heffaith.

## Dirymu

4. Mae Rheoliadau Cartrefi Symudol (Datganiad Ysgrifenedig) (Cymru) 2012(1) wedi eu dirymu.

## Interpretation

### 2. In these Regulations—

“the 2013 Act” (“*Deddf 2013*”) means the Mobile Homes (Wales) Act 2013; and

“written statement” (“*datganiad ysgrifenedig*”) means the written statement that the owner of a protected site is required by section 49(1) of the 2013 Act to give to the proposed occupier.

## Written statement: prescribed requirements

3. The requirements with which a written statement must comply for the purposes of section 49(1) of the 2013 Act (in addition to the requirements of section 49(1)(a) to (d) of the 2013 Act) are—

- (a) that it must contain—
  - (i) the note preceding Part 1 of the Schedule to these Regulations, and
  - (ii) the information mentioned in Parts 1 to 3 of that Schedule (so far as not already required by section 49(1)(a) to (d) of the 2013 Act), and
- (b) that it must be in the form set out in that Schedule or a form substantially to the same effect.

## Revocation

4. The Mobile Homes (Written Statement) (Wales) Regulations 2012(1) are revoked.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

2 Gorffennaf 2014

Minister for Housing and Regeneration, one of the Welsh Ministers

2 July 2014

## ATODLEN

## SCHEDULE

Rheoliad 3

Regulation 3

DATGANIAD YSGRIFENEDIG O DAN DDEDDF CARTREFI SYMUDOL (CYMRU) 2013 Y MAE'N OFYNNOL EI ROI I DDARPAR FEDDIANNYDD LLAIN

**PWYSIG - DARLLENWCH Y DATGANIAD HWN YN OFALUS A'I GADW MEWN MAN DIOGEL. MAE'N NODI'R TELERAU Y BYDD GENNYCH HAWL I GADW'CH CARTREF SYMUDOL AR SAFLE GWARCHODEDIG ARNYNT AC YN DWEUD WRTHYCH AM YR HAWLIAU A RODDIR I CHI GAN Y GYFRAITH. OS NAD YDYCH YN DEALL UNRHYW BETH DYLECH GAEL CYNGOR (ER ENGHRAIFFT, GAN GYFREITHIWR NEU GANOLFAN CYNGOR AR BOPETH).**

WRITTEN STATEMENT UNDER THE MOBILE HOMES (WALES) ACT 2013 REQUIRED TO BE GIVEN TO A PROPOSED OCCUPIER OF A PITCH

**IMPORTANT – PLEASE READ THIS STATEMENT CAREFULLY AND KEEP IT IN A SAFE PLACE. IT SETS OUT THE TERMS ON WHICH YOU WILL BE ENTITLED TO KEEP YOUR MOBILE HOME ON A PROTECTED SITE AND TELLS YOU ABOUT THE RIGHTS WHICH WILL BE GIVEN TO YOU BY LAW. IF THERE IS ANYTHING YOU DO NOT UNDERSTAND YOU SHOULD GET ADVICE (FOR EXAMPLE, FROM A SOLICITOR OR A CITIZENS ADVICE BUREAU).**

### RHAN 1

#### Gwybodaeth am eich Hawliau

##### Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

1. Byddwch yn ymrwymo i gytundeb gyda pherchennog safle a fydd yn rhoi hawl ichi gadw'ch cartref symudol ar dir perchennog y safle a byw ynddo fel eich cartref. Byddwch wedi eich amddiffyn yn awtomatig, a byddwch yn cael rhai hawliau penodol o dan Ran 4 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013"). Mae'r hawliau hyn yn effeithio'n benodol ar ddiogelwch eich deiliadaeth, gwerthu'ch cartref ac adolygu ffi'r llain.

##### Telerau Ymhlyg

2. Mae Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yn cynnwys telerau ymhlyg (mae Pennod 2 yn gymwys i gytundebau sy'n ymwneud â phob llain ar safle gwarchoddedig ac eithrio'r rhai ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr; mae Pennod 3 yn gymwys i gytundebau sy'n ymwneud â lleiniau dros dro ar safleoedd awdurdodau lleol ar

### PART 1

#### Information about your Rights

##### The Mobile Homes (Wales) Act 2013

1. You will be entering into an agreement with a site owner which will entitle you to keep your mobile home on the site owner's land and live in it as your home. You will automatically be protected and given certain rights under Part 4 of the Mobile Homes (Wales) Act 2013 ("the 2013 Act"). These rights affect in particular your security of tenure, the sale of your home and the review of the pitch fee.

##### Implied Terms

2. Part 1 of Schedule 2 to the 2013 Act contains implied terms (Chapter 2 applies to agreements relating to all pitches on a protected site except those on local authority Gypsy and Traveller sites; Chapter 3 applies to agreements relating to transit pitches on local authority Gypsy and Traveller sites and Chapter 4 applies to agreements relating to permanent pitches

gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac mae Pennod 4 yn gymwys i gytundebau sy'n ymwneud â lleiniau parhaol ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr) a fydd yn gymwys yn awtomatig i'ch cytundeb chi ac na ellir eu gwrthwneud, cyhyd â bod eich cytundeb yn parhau yn un y mae Rhan 4 o Ddeddf 2013 yn gymwys iddo. Mae'r telerau a fydd yn gymwys i chi wedi eu cynnwys yn yr Atodiad i Ran 2 o'r datganiad hwn.

### **Telerau Datganedig**

3. Bydd y telerau datganedig a nodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn yn gymwys i chi. Os nad ydych yn fodlon ar unrhyw un neu ragor o'r telerau datganedig hyn, dylech eu trafod gyda pherchennog y safle, a allai gytuno i'w newid.

*(Nid yw'r paragraff a ganlyn yn gymwys i gytundeb ynglŷn â llain dros dro neu lain barhaol ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.)*

4. Mae'r rheolau safle ar gyfer eich safle chi, fel y'u hadneuwyd gyda'ch awdurdod lleol, hefyd yn ffurfio rhan o delerau datganedig eich cytundeb, a nodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn. Dim ond yn unol â'r weithdrefn ragnodedig, fel y'i nodwyd yn adran 52 o Ddeddf 2013, y caniateir i reolau safle gael eu gwneud, eu hamrywio neu eu dileu.

### **Telerau Ychwanegol**

*(Nid yw'r paragraff a ganlyn yn gymwys i gytundeb sy'n ymwneud â llain dros dro ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.)*

5. Mae telerau ychwanegol wedi eu nodi yn Rhan 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013, a gellwch ofyn i dribiwnlys eiddo preswyl gael eu cynnwys yn eich cytundeb. Mae'r rhain yn ymdrin â'r materion a ganlyn:

- (a) y symiau sy'n daladwy gan y meddiannydd yn unol â'r cytundeb, a'r adegau pryd y maent i'w talu;
- (b) yr adolygiad cyfnodol blynyddol o'r symiau taladwy hyn;
- (c) darparu neu wella'r gwasanaethau sydd ar gael ar y safle gwarchodedig, a defnydd y meddiannydd ar wasanaethau o'r fath; a
- (d) cadw amwynder y safle gwarchodedig.

### **Yr hawl i herio telerau datganedig**

*(Nid yw'r paragraffau a ganlyn yn gymwys i gytundeb sy'n ymwneud â llain dros dro ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.) Nid ydynt yn gymwys*

on local authority Gypsy and Traveller sites) which will apply automatically to your agreement and cannot be overridden, so long as your agreement continues to be one to which Part 4 of the 2013 Act applies. The terms that will apply to you are contained in the Annex to Part 2 of this statement.

### **Express Terms**

3. The express terms that are set out in Part 3 of this statement will apply to you. If you are not happy with any of these express terms you should discuss them with the site owner, who may agree to change them.

*(The following paragraph does not apply to an agreement for a transit or permanent pitch on a local authority Gypsy and Traveller site.)*

4. The site rules for your site, as deposited with your local authority, also form part of the express terms of your agreement, which are set out in Part 3 of this statement. Site rules may only be made, varied or deleted in accordance with the prescribed procedure, as set out in section 52 of the 2013 Act.

### **Additional Terms**

*(The following paragraph does not apply to an agreement that relates to a transit pitch on a local authority Gypsy and Traveller Site.)*

5. There are additional terms set out in Part 2 of Schedule 2 to the 2013 Act which you can ask a residential property tribunal to be included in your agreement. These deal with the following matters:

- (a) the sums payable by the occupier in pursuance of the agreement and the times at which they are to be paid;
- (b) the review at yearly intervals of the sums so payable;
- (c) the provision or improvement of services available on the protected site, and the use by the occupier of such services; and
- (d) the preservation of the amenity of the protected site.

### **Right to challenge express terms**

*(The following paragraphs do not apply to an agreement that relates to a transit pitch on a local authority Gypsy and Traveller Site. They also do not*

*ychwaith i reolau safle sy'n ffurfio rhan o delerau datganedig eich cytundeb.*

6. Os byddwch yn ymrwymo i'r cytundeb, ac wedyn yn teimlo'n anfodlon ar delerau datganedig y cytundeb, gellwch eu herio, ond rhaid ichi wneud hynny o fewn chwe mis i'r dyddiad pryd y byddwch yn ymrwymo i'r cytundeb neu'r dyddiad pryd y cawsoch y datganiad ysgrifenedig, p'un bynnag yw'r olaf. Os ydych yn dymuno herio'ch cytundeb, cynghorir chi i siarad â chyfreithiwr neu ganolfan cyngor ar bopeth.

7. Gellwch herio'r telerau datganedig drwy wneud cais i driwlynys eiddo preswyl. Gellwch ofyn i unrhyw delerau datganedig yn y cytundeb (y rhai a nodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn) gael eu newid neu eu dileu.

8. Gall perchennog y safle hefyd fynd i driwlynys eiddo preswyl i ofyn i'r cytundeb gael ei newid yn y ddwy ffordd hyn.

9. Rhaid i'r triwlynys eiddo preswyl wneud gorchymyn ar delerau y mae'n ystyried eu bod yn gyfiawn a theg yn yr amgylchiadau.

#### **Terfyn amser o chwe mis ar gyfer herio'r telerau**

*(Nid yw'r paragraff a ganlyn yn gymwys i gytundeb sy'n ymwneud â llain dros dro ar safle awdurdod lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.) Nid yw'n gymwys ychwaith i reolau safle sy'n ffurfio rhan o delerau datganedig eich cytundeb.*

10. Rhaid ichi weithredu'n gyflym os oes arnoch eisiau herio'r telerau. Os na fyddwch chi neu berchennog y safle yn gwneud cais i driwlynys o fewn chwe mis i'r dyddiad pryd y gwnaethoch chi ymrwymo i'r cytundeb neu'r dyddiad pryd y cawsoch y datganiad ysgrifenedig, p'un bynnag yw'r olaf, byddwch chi a perchennog y safle wedi eich rhwymo gan delerau'r cytundeb ac ni fydd modd ichi eu newid oni bai bod y ddau barti yn cytuno.

#### **Telerau annheg**

11. Os ydych yn ystyried bod unrhyw un neu ragor o delerau datganedig y cytundeb (fel y'u nodir yn Rhan 3 o'r datganiad hwn) yn annheg, gellwch, yn unol â darpariaethau Rheoliadau Telerau Annheg mewn Contractau Defnyddwyr 1999(1) wneud cwyn i'r Awdurdod Cystadlu a Marchnadoedd neu unrhyw gorff cymwys dan y Rheoliadau hynny.

*apply to site rules which form part of the express terms of your agreement.)*

6. If you enter into the agreement and subsequently become dissatisfied with the express terms of the agreement you can challenge them, but you must do so within 6 months of the date on which you enter into the agreement or the date you received the written statement, whichever is later. If you wish to challenge your agreement, you are advised to consult a solicitor or citizens advice bureau.

7. You can challenge the express terms by making an application to a residential property tribunal. You can ask for any express terms of the agreement (those set out in Part 3 of this statement) to be changed or deleted.

8. The site owner can also go to a residential property tribunal to ask for the agreement to be changed in these two ways.

9. The residential property tribunal must make an order on terms it considers just and equitable in the circumstances.

#### **Six months time limit for challenging the terms**

*(The following paragraph does not apply to an agreement that relates to a transit pitch on a local authority Gypsy and Traveller Site. It also does not apply to site rules which form part of the express terms of your agreement.)*

10. You must act quickly if you want to challenge the terms. If you or the site owner make no application to a tribunal within 6 months of the date on which you entered into the agreement or the date you received the written statement, whichever is later, both you and the site owner will be bound by the terms of the agreement and will not be able to change them unless both parties agree.

#### **Unfair terms**

11. If you consider that any of the express terms of the agreement (as set out in Part 3 of this statement) are unfair, you can, in accordance with the provisions of the Unfair Terms in Consumer Contracts Regulations 1999(1) complain to the Competition and Markets Authority or any qualifying body under those Regulations.

---

(1) O.S. 1999/2083. Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn cynnwys rhestr o gyrff cymwys.

---

(1) S.I. 1999/2083. Schedule 1 to the Regulations contains a list of qualifying bodies.

## Anghydfodau

12. Os byddwch yn anghytuno â pherchennog eich safle ynglŷn â hawliau neu rwymedigaethau o dan eich cytundeb, neu o dan Ran 4 o Ddeddf 2013 yn fwy cyffredinol, a'ch bod yn methu datrys y mater rhwng eich gilydd, gellwch gyfeirio'r mater at Dribiwnlys Eiddo Preswyl. Weithiau ceir terfyn amser ar gyfer gwneud hynny. Gellir cael rhagor o wybodaeth am geisiadau i'r tribiwnlys yn <http://rpt.cymru.gov.uk> neu gan eich Swyddfa Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl leol.

13. Dim ond ar y seiliau a bennir yn y telerau ymhlyg y gall perchennog eich safle derfynu'ch cytundeb. Ni ellir eich troi allan o'r safle heb orchymyn gan y llys. Os cewch wybod bod y cytundeb yn mynd i gael ei derfynu drwy achos llys, a'ch bod yn dymuno cael cyngor cyfreithiol, dylech wneud hynny ar unwaith.

## Cymrodeddu

14. Gellwch gytuno'n ysgrifenedig â pherchennog eich safle i gyfeirio anghydfod penodol at broses gymrodeddu.

15. Os cytunwyd i fynd at broses gymrodeddu cyn i'r anghydfod godi, mae Rhan 4 o Ddeddf 2013 yn darparu na fydd grym i deler o'r fath. Yn hytrach, dim ond Tribiwnlys Eiddo Preswyl a gaiff benderfynu ar anghydfodau o'r fath.

## Disputes

12. If you have a disagreement with your site owner about rights or obligations under your agreement, or Part 4 of the 2013 Act more generally, and you are unable to resolve the matter between yourselves, you can refer the matter to a Residential Property Tribunal. Sometimes there is a time limit for doing so. More information on applications to the tribunal can be found at <http://rpt.wales.gov.uk> or from your local Residential Property Tribunal Office.

13. Your site owner can only terminate your agreement on the grounds specified in the implied terms. You cannot be evicted from the site without an order from the court. If you are notified of termination proceedings and you wish to take legal advice, you should do so promptly.

## Arbitration

14. You can agree in writing with your site owner to refer a particular dispute to arbitration.

15. If the agreement to go to arbitration was made before the dispute arose, Part 4 the 2013 Act provides that such a term will have no effect. Instead such disputes may only be determined by a Residential Property Tribunal.

## RHAN 2

### Manylion y Cytundeb

1. Bydd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys i'r cytundeb.

### Partïon i'r cytundeb

2. Y partïon i'r cytundeb fydd:

.....  
.....  
*(mewnosoder enw(au) a chyfeiriad meddiannydd y cartref symudol)*

.....  
.....  
*(mewnosoder enw(au) a chyfeiriad perchennog/perchnogion y safle)*

## PART 2

### Particulars of the Agreement

1. The Mobile Homes Act (Wales) 2013 will apply to the agreement.

### Parties to the agreement

2. The parties to the agreement will be:

.....  
.....  
*(insert name(s) and address of mobile home occupier(s))*

.....  
.....  
*(insert name(s) and address of site owner(s))*



**Dyddiad cychwyn**

3. Bydd y cytundeb yn cychwyn ar

.....  
(*mewnoder y dyddiad*)

**Manylion y llain**

4. Dyma fanylion y tir y bydd gennych hawl i osod eich cartref symudol arno:

.....  
.....  
.....

**Plan**

5. Mae plan sy'n dangos—
- (a) maint a lleoliad y llain;
  - (b) maint y sylfaen y mae'r cartref symudol i'w osod arno; ac
  - (c) mesuriadau rhwng pwyntiau gosodedig y mae modd eu gweld ar y safle a'r llain a'r sylfaen, ynghlwm wrth y datganiad hwn.

**Buddiant perchennog y safle**

6. Bydd ystâd neu fuddiant perchennog y safle yn y tir yn dod i ben ar:

.....  
(os yw'r *datganiad* hwn yn gymwys mewnoder y dyddiad);

Neu

Bydd caniatâd cynllunio perchennog y safle ar gyfer y safle yn dod i ben ar:

.....  
(os yw'r *datganiad* hwn yn gymwys mewnoder y dyddiad)

Mae hyn yn golygu na fydd eich hawl i aros ar y safle yn parhau ar ôl y naill neu'r llall o'r dyddiadau hyn,

**Start date**

3. The agreement will begin on

.....  
(*insert date*)

**Particulars of the pitch**

4. The particulars of the land on which you will be entitled to station your mobile home are:

.....  
.....  
.....

**Plan**

5. A plan showing—
- (a) the size and location of the pitch;
  - (b) the size of the base on which the mobile home is to be stationed; and
  - (c) measurements between identifiable fixed points on the site and the pitch and base, is attached to this statement.

**Site owner's interest**

6. The site owner's estate or interest in the land will end on:

.....  
(if this *statement* applies, insert date);

Or

The site owner's planning permission for the site will end on:

.....  
(if this *statement* applies, insert date)

This means that your right to stay on the site will not continue after either of these dates, unless the site

oni bai bod buddiant neu ganiatâd cynllunio perchennog y safle yn cael ei ymestyn.

*(Os dim ond un o'r datganiadau hyn sy'n gymwys, dileer y geiriau nad ydynt yn gymwys. Os nad oes yr un o'r datganiadau hyn yn gymwys, dileer y paragraff hwn.)*

**Ffi'r llain**

7. Bydd ffi'r llain yn daladwy o:

..... *(mewnosoder y dyddiad)*

Bydd ffi'r llain yn daladwy bob wythnos/mis/chwarter/blwyddyn *(dileer y geiriau nad ydynt yn gymwys)*

Ffi'r llain yw .....

Mae'r gwasanaethau a ganlyn wedi eu cynnwys yn ffi'r llain –

Dŵr

Carthffosiaeth

.....

..... *(dileer y gwasanaethau nad ydynt wedi eu cynnwys yn ffi'r llain ac ychwanegwch unrhyw wasanaethau eraill sydd wedi eu cynnwys ynddi)*

**Adolygu ffi'r llain**

8. Bydd ffi'r llain yn cael ei hadolygu ar:

..... *(mewnosoder y dyddiad)*

Dyma ddyddiad yr adolygiad. *(dileer y paragraff hwn os nad yw'n gymwys)*

**Taliadau ychwanegol**

9. Codir tâl ychwanegol am y materion a ganlyn—

..... *(rhestrwch y materion y codir tâl ychwanegol amdanynt)*

owner's interest or planning permission is extended.

*(If only one of these statements applies, cross out the words that do not apply. If neither of these statements apply, delete this paragraph.)*

**Pitch fee**

7. The pitch fee will be payable from:

..... *(insert date)*

The pitch fee will be payable weekly/monthly/quarterly/annually *(cross out the words which do not apply)*

The pitch fee is .....

The following services are included in the pitch fee –

Water

Sewerage

.....

..... *(cross out the services which are not included and add any others which are included in the pitch fee)*

**Review of pitch fee**

8. The pitch fee will be reviewed on:

..... *(insert date)*

This date is the review date. *(cross out this paragraph if not applicable)*

**Additional charges**

9. An additional charge will be made for the following matters—

..... *(list the matters for which an additional charge will be made)*

## Yr Atodiad i Ran 2

Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r telerau ymhlyg a fydd yn gymwys i'r cytundeb yn awtomatig.

*[Perchennog y safle i gynnwys yn yr Atodiad hwn y set gywir o delerau ymhlyg:*

*mae'r telerau ymhlyg ym Mhennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys o ran pob llain ar safleoedd gwarchoddedig ac eithrio'r rhai ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr;*

*mae'r telerau ymhlyg ym Mhennod 3 o'r Atodlen honno yn gymwys i leiniau dros dro ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr;*

*ac mae'r telerau ymhlyg ym Mhennod 4 o'r Atodlen honno yn gymwys i leiniau parhaol ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.]*

## RHAN 3

### Telerau Datganedig y Cytundeb

Mae'r Rhan hon o'r datganiad ysgrifenedig yn nodi telerau eraill yn y cytundeb y gallech chi a pherchennog y safle gytuno arnynt yn ychwanegol at y telerau ymhlyg.

*[Y telerau i'w mewnosod gan berchennog y safle]*

---

©<sup>©</sup> Hawlfraint y Goron 2014

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## Annex to Part 2

This Annex sets out the implied terms which automatically apply to the agreement.

*[Site owner to include in this Annex the correct set of implied terms:*

*the implied terms in Chapter 2 of Part 1 of Schedule 2 to the Mobile Homes (Wales) Act 2013 apply in relation to all pitches on protected sites except those on local authority Gypsy and Traveller sites;*

*the implied terms in Chapter 3 of that Schedule apply to transit pitches on local authority Gypsy and Traveller sites;*

*and the implied terms in Chapter 4 of that Schedule apply to permanent pitches on local authority Gypsy and Traveller sites.]*

## PART 3

### Express Terms of the Agreement

This Part of the written statement sets out other terms of the agreement which may be agreed between you and the site owner in addition to the implied terms.

*[Terms to be inserted by site owner]*

---

© Crown copyright 2014

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2014 Rhif 1762 (Cy. 177)**

**2014 No. 1762 (W. 177)**

**CARTREFI SYMUDOL,  
CYMRU**

**MOBILE HOMES, WALES**

Rheoliadau Cartrefi Symudol  
(Datganiad Ysgrifenedig) Cymru)  
2014

The Mobile Homes (Written  
Statement) (Wales) Regulations  
2014

£6.00

W2010/07/14

ON

ISBN 978-0-348-10967-2



9 780348 109672